Theatr Iolo

*Galw pob*

# DRAMODYDD IFANC




# Croeso

Mae straeon ym mhobman.

Straeon y byddwch chi’n eu darllen mewn llyfr neu’n eu gweld ar y teledu.

Straeon ar y newyddion neu sy’n digwydd i bobl rydych chi’n eu hadnabod.

Neu straeon y byddwch chi’n eu creu yn yr ystafell ddosbarth neu pan fyddwch chi allan yn chwarae.

**Byddwn ni’n cyflwyno 3 phwnc i chi feddwl amdanyn nhw wrth ysgrifennu straeon i’r llwyfan.**

# Pwnc Un

## Adrodd Straeon

Theatr Iolo

# 1. Stori mewn llyfr

Theatr Iolo

**Wrth ysgrifennu llyfr, bydd yr awdur yn disgrifio popeth sy'n digwydd**



**Dyma enghraifft ichi:**

Roedd Amir wedi cyffroi cymaint cyn ei ben-blwydd, fe ddeffrodd am bump o'r gloch y bore. Edrychodd drwy'r ffenest i weld sut dywydd oedd hi, a chan ei bod hi'n fis Mehefin, roedd rhimyn o haul eisoes i'w weld trwy'r cymylau.

Gwenodd Amir. Ac yna ebychodd. Oherwydd ar y lawnt ffrynt roedd paun aur anferth yn cerdded yn falch ar hyd y glaswellt.

Edrychodd y paun ar Amir a wincio cyn gweiddi,

"Amir!"

Ebychodd Amir drachefn.

"Hei! Amir?" meddai'r paun, yn swnio braidd yn ddiamynedd erbyn hyn. "Ti *yw* Amir Harrison, yntê? O 36 Clos yr Eglwys?"

Nodiodd Amir. Ymddangosai na fedrai siarad bellach.

"Wel. Neidia ar fy nghefn. Ffwrdd â ni!"

# 2. Stori mewn papur newydd

*Mewn papurau newydd, byddwn ni'n canolbwyntio ar y ffeithiau*

**Dyma enghraifft ichi:**

Gwelodd Amir Harrison, y bachgen ysgol wyth oed, rywbeth anhygoel fore ddoe pan ddaeth wyneb yn wyneb â phaun aur anferth yn cynnig reid ar ei gefn.




Theatr Iolo

# 3. Stori mewn ffilm

*Mewn ffilmiau, byddwn ni'n gweld pethau'n digwydd wrth i'r stori ddatblygu*

**Dyma enghraifft ichi:**

Byddwn ni'n *gweld* y paun a'r ystafell ac Amir yn cael ei gyffroi.

Fe all y camera symud yn ôl ac ymlaen o'r ystafell wely i'r lawnt.



# 4. Stori ar y llwyfan

*Mewn drama lwyfan byddwn ni'n darganfod y stori wrth i Amir a'r paun siarad â'i gilydd*

Theatr Iolo



**Dyma enghraifft ichi:**

*Mae Amir yn agor y llenni'n gyffrous. Mae'n edrych i lawr ac yn gweld paun aur anferth ar y lawnt oddi tano. Mae Amir yn ebychu. Mae'r paun yn wincio*

**PAUN:** Amir!

*Curiad adenydd*

**PAUN:** Oi! Amir? Ti *yw* Amir Harrison, yntê?

**AMIR :** Y...y... y

**PAUN:** O 36 Clos yr Eglwys? Sy'n cael ei ben-blwydd heddiw?

*Mae Amir yn nodio*

**PAUN:** Beth sy'n bod? Y gath wedi dwyn dy dafod? O, digon teg. Does dim cathod yma, nag oes?Fi'i'n casáu'r pethau bach blewog!

**AMIR :** Pwy... pwy wyt ti?

**PAUN:** Wel, paun ydw i, yn amlwg. -Martin yw'r enw -Mae'n dda dy gyfarfod di.

*Mae'n estyn crafanc at ffenest yr ystafell wely.*

**AMIR :** Martin?

**PAUN:** Ddim yr enw gorau. Roedd Mam yn hoff o ryw ganwr neu'i gilydd. Dwn i ddim. Wyt ti'n dod neu beidio?

**AMIR :** Beth wyt ti'n feddwl?

*Mae Martin yn ochneidio'n ddramatig*

**PAUN:** Wnest ti neu wnest ti ddim gwneud dymuniad i gael gweld y byd? Ar noson y trydydd o Fehefin? Neithiwr, a dweud y gwir.

**AMIR:** Do, ond...

**PAUN:** Dyna ddigon ar dy Do ond... Neidia ar fy nghefn. Ffwrdd â ni! Tyrd yn dy flaen. Allan o'r ffenest. Does gen i ddim trwy'r dydd.

*Yn betrus, mae Amir yn dringo drwy'r ffenest. Mae Martin yn edrych arno'n ddiamynedd cyn hedfan at y ffenest, rhoi coler Amir yn ei big, a'i daflu ar ei gefn cyn hedfan i ffwrdd.*

# Ysgrifennu Drama

Yn y theatr byddwn ni fel arfer yn darganfod y stori wrth i bobl sgwrsio a gwneud pethau â'i gilydd.

Y **ddeialog** yw'r enw ar y sgwrs rhwng y cymeriadau ac mae'n rhywbeth pwysig iawn wrth ichi ysgrifennu i'r llwyfan.

**Pam?** Oherwydd mae'n ein helpu ni i deall pethau am y cymeriadau a'r byd, ac am y sefyllfa.

Pan fyddwn ni'n gwylio sioeau ar lwyfan, mae'n debyg weithiau i fod yn dditectif. Mae'r sgyrsiau rhwng cymeriadau yn cynnwys cliwiau y mae angen inni eu canfod.

O'r enghraifft o fersiwn lwyfan ar y dudalen flaenorol, rydyn ni'n canfod llawer mwy am Amir a'r paun yn yr olygfa hon nag ydyn ni yn y ffilm, a hyd yn oed yn y llyfr.



Theatr Iolo



# Gan ddefnyddio’r stori lwyfan fel enghraifft, gadewch inni ysgrifennu’r holl bethau y gwyddon ni ar ddiwedd y sgwrs hon.





- Rydyn ni’n gwybod mai Martin yw enw’r paun.
- Rydyn ni’n gwybod ei fod yn ymateb i ddymuniad Amir.
- Rydyn ni’n gwybod bod Amir eisiau gweld y byd.
- Rydyn ni’n gwybod ei bod hi’n ben-blwydd ar Amir.

**Faint o ffeithiau eraill y gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw?**

**Pe byddech chi’n ysgrifennu rhan nesaf y stori, neu’r olygfa, fel mae’n cael ei galw mewn drama, sut olygfa fyddai hi?**



## Ceisiwch ysgrifennu deg llinell o ddeialog newydd i’r olygfa newydd. Efallai y gallech chi ysgrifennu am hyn:

- Rhan gyntaf antur Amir a Martin
- Rhieni Amir yn darganfod ei fod wedi diflannu

**Awgrym: Os ewch chi i drafferthion: Gofynnwch i aelod o’r teulu neu i ffrind esgus bod yn un o rieni Amir sy’n darganfod ei fod wedi diflannu, gan actio’r olygfa yn fyrfyfyr a defnyddio hyn yn sail i’ch ysgrifennu.**

# Pwnc Dau

**Lleoliad, Lleoliad, Lleoliad**

Theatr Iolo

# Lleoliad

Y llefydd lle bydd y stori'n digwydd yw'r lleoliadau. Gallai hyn fod ar y lleuad, ar draeth, neu hyd yn oed yn eich cegin.

Mewn ffilm, mae'n rhwydd dangos y lleoliad gan ein bod ni'n dangos lle bydd pethau'n digwydd. Ond ar lwyfan, mae'n rhaid inni ofyn i'r gynulleidfa ddefnyddio'u dychymyg.




Theatr Iolo

- **Beth os bydd Martin yn mynd ag Amir ar ei gefn i Efrog Newydd yn America?**
- **Sut y bydden ni'n gwybod hynny?**

Ar y teledu neu mewn ffilm, efallai y byddai'r camera'n dangos y tyrau tal, y tacsis melyn a baner Americanaidd. Fyddai dim angen i neb grybwyll Efrog Newydd o gwbl.

Ond os ydyn ni i ysgrifennu'r olygfa honno ar gyfer y llwyfan, yna byddai'n rhaid mynd ati mewn ffordd fymryn yn wahanol. Mae'n fwy anodd dangos lleoliad yn realistig heb gamera, er mwyn inni wir gredu bod Amir a Martin yno go iawn.

## Beth allen ni ei wneud yn lle hynny?

- Gallai rhywun ddod â baner Americanaidd ac/neu degan o dacsi melyn ar y llwyfan.
- Gallai Martin ac Amir grybwyll Efrog Newydd yn eu sgwrs, fel bod y gynulleidfa yn gwybod ble maen nhw
- Gallai Martin neu'r paun ddweud "Efrog Newydd" wrth y gynulleidfa, y bydden ni'n credu mai dyna ble maen nhw.
- Byddai modd defnyddio effeithiau sain, fel tacsis yn canu cyrn a lleisiau Americanaidd yn gweiddi.



**Allwch chi feddwl am ffyrdd eraill o ddangos ble mae'r olygfa'n digwydd?**

# Pwnc Tri

## Delweddau, Symbolau a Seiniau

Theatr Iolo

# Delweddau a Symbolau

Mae straeon ar y llwyfan yn cael eu hadrodd drwy'n llygaid yn ogystal â'n clustiau.
Fe allwn ni weld y cymeriadau'n gwneud pethau neu'n actio mewn ffordd arbennig, yn chwerthin, yn crio, yn gweiddi ac ati. Weithiau mae'r hyn y byddwn ni'n ei weld yr un mor bwysig â'r hyn y mae'r cymeriadau'n ei ddweud.

Yn aml byddwn ni'n defnyddio delweddau ar y llwyfan hefyd. Byddwn ni'n defnyddio gwrthrychau neu bethau sy'n ein helpu i feddwl am rywbeth arall. Er enghraifft, gallai defnyddio'r tegan o'r tacsi melyn wneud inni feddwl am Efrog Newydd. Byddwn ni'n cysylltu'r ddau beth wrth eu gweld gyda'i gilydd.

**Dyma enghraifft arall**: Efallai y bydd eich Nain wastad yn eistedd yn yr un gadair. Bob tro y byddwch chi'n mynd i'w gweld hi, mae hi'n eistedd yn yr un gadair. Mae'n siŵr y bydd y gadair honno wastad yn eich atgoffa o'ch Nain. Mae'r gadair yn dod yn symbol o'ch Nain.

Mae llawer o'r byd theatr yn defnyddio delweddau a symbolau i'n helpu ni i feddwl am rywbeth arall.

## Am beth fyddwch chi'n meddwl wrth weld y ddelwedd hon?



- Babi?
- Amser gwely?
- Mam yn rhoi cwtsh i'w babi?
- Cadw pethau babi o'r neilltu yn yr atig?

Os bydd y llwyfan yn goleuo a'r peth cyntaf a welwch chi yw blanced babi a thedi, efallai y byddwch chi'n credu bod hon yn ddrama am fabi, neu bod babi yn rhan bwysig o'r hyn sydd ar fin digwydd.

Felly hyd yn oed heb weld babi, mae'r flanced a welwn ni ar y llwyfan yn rhoi gwybod inni beth sy'n bwysig yn y ddrama hon.



# Beth am y ddelwedd hon?

- Am beth fyddech chi'n meddwl?
- Beth fyddech chi'n disgwyl ei weld yn dod ar y llwyfan?
- Beth fyddai pwnc y ddrama tybed?



# Beth am y ddelwedd hon?

- Lle gallen ni fod ar hyn o bryd?
- Beth fyddech chi'n disgwyl ei glywed a'i weld?



# Beth am y ddelwedd hon?

- Am beth fyddech chi'n meddwl?
- Ble a phryd y gallai'r ddrama fod yn digwydd?

# Sain

Gall delweddau a symbolau achosi inni feddwl am amser neu le penodol, a hynny cyn gweld unrhyw berson.

Fe allwch chi hefyd ddefnyddio sain i helpu cynulleidfa i ddeall y stori a defnyddio'u dychymyg.

## Gadewch inni ddychmygu sŵn y gwynt yn chwythu'n uchel ar noson o aeaf.

- **Pa lun fyddai'n cyd-fynd yn dda â hynny?**
- **Beth os byddwn ni'n rhoi'r sain gyda'r ddesg ysgol? Neu flanced y babi?**

Weithiau mae'n hwyl rhoi dau beth gyda'i gilydd na fydden ni'n meddwl amdanyn nhw fel arfer.

**Pan fydd rhywbeth yn anarferol neu'n wahanol, mae'n ein synnu ac mae'n gallu tanio'n dychymyg.**









# Ceisiwch roi gwahanol luniau a seiniau ynghyd

Dyma restr ichi ei defnyddio:

| LLUNIAU | SEINIAU |
|---|---|
| Cannwyll yn llosgi | Fan hufen iâ |
| Crysau gwyn ar y lein ddillad | Coed yn cael eu torri |
| Menyw mewn gwisg wen hir a fêl | Glaw yn curo ar y ffenest |
| Pelen o wlân coch | Plant yn chwarae |
| Rhes o deganau plant | Awyren yn codi |
| Llawer o blanhigion jyngl mawr | Peiriant yn torri gwair |
| Cês lledr brown mawr | Cloch eglwys yn canu |
| Pentyrrau o arian | Ci yn chwyrnu |

- Am beth mae'r rhain yn gwneud ichi feddwl?
- Allwch chi ddychmygu byd a chymeriadau posibl?
- Beth allai ddigwydd, efallai, mewn drama sy'n cynnwys y delweddau hyn?

Fe all delweddau, symbolau a seiniau roi ymdeimlad grymus a chlir iawn o le ac amser inni

# I grynhoi:

Mae ysgrifennu i'r llwyfan yn **wahanol** i ysgrifennu straeon i'r radio, teledu a ffilm.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gofyn i gynulleidfaoedd ddefnyddio'u **dychymyg** wrth inni ddangos gwahanol lefydd ac adegau iddyn nhw.

Mae **deialog a monologau**, neu'r sgwrsio rhwng cymeriadau neu'r sgwrsio â'r gynulleidfa, yn arbennig o bwysig yn y byd theatr gan ei fod yn ein helpu i ddod i ddeall y cymeriadau, beth maen nhw'i eisiau, a'r sefyllfa y maen nhw ynddi.

Fe all **delweddau, symbolau a seiniau** roi ymdeimlad grymus a chlir iawn o le ac amser inni.

